# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (292)v5

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Drafft Cymru

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Yr Uwchgynhadledd ar Ddur

(30 munud)

## 5 Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

(15 munud)

**NDM5846 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2015.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl ar ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg

(60 munud)

**NDM5845 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014-15, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 28 Medi 2015, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014-15

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gydweithio er mwyn cyhoeddi amserlen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau yn ei strategaeth iaith, 'Iaith fyw: iaith byw', erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

'Iaith fyw: iaith byw'

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei strategaeth iaith 'Iaith fyw: iaith byw' i wneud 'safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau'.

Iaith fyw: Iaith Byw

## 7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(60 munud)

**NDM5847 Ken Skates (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 1 Mai 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 9 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## 8 Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(5 munud)

**NDM5848 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 9 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru)

(60 munud)

**NDM5849 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 11 Mai 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Fil yr Amgylchedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 9 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Bil yr Amgylchedd (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 10 Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd (Cymru)

(5 munud)

**NDM5850 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil yr Amgylchedd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 11 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

(15 munud)

**NDM5855 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

**Dogfennau Ategol**

Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 21 Hydref 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Hydref 2015 i'w hateb ar 20 Hydref 2015

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ecsbloetio nwy anghonfensiynol yng Nghymru? OAQ(4)2519(FM)**W**

2. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredoedd Llywodraeth Cymru i adfywio canol tref Llanelli? OAQ(4)2524(FM)**W**

3. **Gwenda Thomas (Castell-nedd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar rôl cydlynydd gwrthgaethwasiaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2512(FM)

4. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch ymestyn y fasnachfraint etholiadol i bobl 16 ac 17 oed cyn etholiad y Cynulliad flwyddyn nesaf? OAQ(4)02518(FM)

5. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Pa gymorth a chyngor y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i bobl sydd mewn dyled? OAQ(4)2510(FM)

6. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau'r galon ar gyfer pobl ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)02516(FM)

7. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio doctoriaid a nyrsys yng Nghymru? OAQ(4)2509(FM)

8. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at gyffuriau canser yn Nhorfaen? OAQ(4)2069(FM)

9. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(4)2508(FM)

**10. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros ambiwlansys yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2521(FM)**W**

**11. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd mamolaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2522(FM)**W**

**12. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gyfnod y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyrraedd yn y gwaith o ddatblygu metro de Cymru? OAQ(4)2515(FM)

**13. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau Bil Cymru o ran gallu'r Cynulliad i ddeddfu ym maes ynni? OAQ(4)02517(FM)**W**

**14. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymiad i ymchwiliad cyhoeddus i'r ddamwain lofaol yng nglofa’r Gleision? OAQ(4)2520(FM)

**15. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoli perygl llifogydd yng Nghymru? OAQ(4)2511(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 3 Tachwedd 2015 a dydd Mercher 4 Tachwedd 2015**
**Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2015 a dydd Mercher 11 Tachwedd 2015**
**Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2015 a dydd Mercher 18 Tachwedd 2015**

**Dydd Mawrth 3 Tachwedd 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cyflawni ar gyfer ein Lluoedd Arfog a'u teuluoedd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad ar Gyflwr yr Ystâd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Y Rhaglen i Ddileu TB (30 munud)
- Rhentu Doeth Cymru - Cod Ymarfer (Rhwymedigaethau Statudol a Chanllaw Arfer Gorau), o ganlyniad i Ymgynghoriad - Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (30 munud)
- Trefn ystyried y gwelliannau ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2014 - 2015 (60 munud)

**Dydd Mercher 4 Tachwedd 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Jenny Rathbone (Canol Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl ar Gyfnod 3 o'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (180 munud)
  *Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.*

**Dydd Mercher 11 Tachwedd 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016/17 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Trosiannol) 2015 (30 munud)
- Dadl ar Gyfnod 3 o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (180 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2014-15 (60 munud)

**Dydd Mercher 18 Tachwedd 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)